YR YMDDIRIEDOLAETH GENEDLAETHOL
THE NATIONAL TRUST

Datganiad Amgylcheddol Canolfan Craflwyn 2007

Beth yw Canolfan Craflwyn?

Canolfan sy'n cynnig amgylchedd unigryw i wirfoddolwyr, hyfforddiant a dysgu, cynadleddau a gwyliau arbennig ydi Craflwyn. Mae'r ganolfan yn bencadlys i weithgareddau'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn ardal Gorllewin Eryri a Llŷn ac yn cynnwys amrywiaeth o letyau, maes pebyll, swyddfeydd a storfeydd.

Beth yw ein Heffeithiau Amgylcheddol?

Mae'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol yng Nghraflwyn yn cydnabod ei gyfrifoldeb i leihau ei effaith ar yr amgylchedd ac mi fydd yn cynnal ei weithgareddau i arddangos ymarfer gorau ac i hyrwyddo cynaladwyedd. Mae prif effaith amgylcheddol Craflwyn yn y lle cyntaf yn gysylltiedig â defnydd yr adeiladau a'r gweithrediadau trwy'r ystâd ehangach. Yn ogystal â'n effeithiau positif, dyma brif effeithiau amgylcheddol negyddol :-

- Cynhyrchiad a defnydd trydan, olew, nwy a phetrol
- Gwaredu gwastraff cyffredin i safleoedd tirlenwi
- Cyflenwi a gwaredu dŵr
- Defnyddio nwyddau crai

Beth ydi ein Hymrwymiad i Wella'r Amgylchedd?

Mae pawb yng Nghraflwyn yn ymroddedig i barhau i wella'r amgylched drwy:-

- Lleihau defnydd ynni a hyrwyddo defnydd effeithlon o ynni gan ein hymwelwyr
- Lleihau gwastraff drwy ailgylchu
- Mesur defnydd adnoddau a chynhyrchiad gwastraff a chyfathrebu'r canlyniadau i fuddgyfranogwyr
- Gostwng defnydd cemegau i'r lleiafswm ac atal llygredd
- Lleihau defnydd dwr
- Gostwng effeithiau trafnidiaeth ar yr amgylchedd drwy ddefnydd effeithiol o gerbydau a defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus
- Sicrhau bod nwyddau, offer a gwasanaethau yn cefnogi polisi amgylcheddol a bod cyflenwyr yn cael eu hannog i wella eu perfformiad amgylcheddol
- Yn wastad gwella perfformiad amgylcheddol drwy osod targedau a chofnodi canlyniadau
- Cadw lefel uchel o ymwybyddiaeth am gynaladwyedd ymysg ein gweithlu a chodi ymwybyddiaeth ein hymwelwyr
- Cydymffurfio a Deddfwriaeth Amgylcheddol y DU ac Ewropeaidd.

Mae'r Polisi Amgylcheddol yma yn cael ei adolygu yn flynyddol ac mi fydd ar gael i staff, ymwelwyr, cyflenwyr ac aelodau'r cyhoedd.

YR YMDDIRIEDOLAETH GENEDLAETHOL
THE NATIONAL TRUST

Datganiad Amgylcheddol Canolfan Craflwyn 2007

Adroddiad Cynnydd 2007

Jayne, Iona a Sarah yn derbyn plac "clod uchel" yn y Gwobrau Busness a Chynaladwyedd Cymru gan Roger Thomas, Prif Weithredwr, Cyngor Cefn Gwlad Cymru.

Yn ystod y flwyddyn, mae'r nifer o gyfarfodydd, priodasau a digwyddiadau eraill wedi cynyddu. Cynhaliwyd 19 priodas yn y Neuadd ac roedd a chyfradd llenwi ar gyfer pob mathau o grwpiau yn 53%, gyda chynnydd yn y nifer o bobl yn defnyddio'r adeiladau. Roedd 17 gwyliau gwaith wedi ei leoli yng Nghraflwyn yn ystod y flwyddyn a daeth 2,600 o fyfyrwyr o America yma ar brosiect "People to People". Gwirfoddolwyd dros 2,968 o bobl i weithio gyda ni, 18,099 o oriau gwirfoddoli wrth weithio ar brosiectau amgylcheddol. Mae Bwthyn Mai wedi bod yn llawn 73% o'r amser, cynnydd o 35%. Er bod ychydig o newidiadau yn y staff yn ystod 2007, mae'r nifer yn parhau i fod yn 13. Un o'r prif lwyddiannau yn ystod 2007 oedd derbyn gwobr "clod uchel" yn y Gwobrau Busnes a Chynaladwyedd Cymru. Disgrifir isod ein llwyddiannau amgylcheddol.

Addysg

Un o'r prif lwyddiannau ar gyfer y flwyddyn oedd darparu mwy o wybodaeth i'n gwesteion a staff ynglŷn â nodweddion amgylcheddol Craflwyn a chanllawiau ar sut i leihau ein defnydd o ynni a chynhyrchu gwastraff. Mae'r pecyn dehongli yn cynnwys:

- Taflen 'Canllawiau ar gyfer Craflwyn Gwyrdd' a sticeri ar y switshis, socedau ac offer trydanol
- 'Taith Eco" ar gyfer gwesteion ac ymwelwyr i werthfawrogi'r nodweddion gwyrdd ar y safle
- Pecyn addysg ar gyfer teuluoedd a grwpiau addysg
- Mwy o wybodaeth yn y Neuadd, gan gynnwys model yn dangos agweddau arbed ynni'r adeilad
- Mwy o wybodaeth wyrdd ar ein gwefan
- Cynhaliwyd Diwrnod Gwyrdd ar gyfer staff ar Fehefin 14.

Y "popty pridd" amser cinio ar Diwrnod Gwyrdd y staff. Darparwyd y cinio i gyd gan ddefnyddio cynhwysion lleol – gan gynnwys cig eidion organic o Fferm Hafod y Llan - heb ddefnyddio tanwydd ffosil yn ei ddarpariaeth

Defnydd o Ynni

Llwyddiant pwysica'r flwyddyn oedd lleihau defnydd LPG o 40% i 19,109 litres. Mae hyn yn gyfunol a lleihau defnydd trydan, disel ac olew gwresogi ac o ganlyniad wedi lleihau'n eithriadol yn ein hallyriad CO_2 o 14.2% i 83,484kg. Yn ogystal â helpu i leihau cynhesu byd-eang, mae'n arbediad ariannol i'n busnes mewn costau LPG sydd ei hun o gwmpas £1,850. Mae'r mentrau sydd wedi ei galluogi i leihau gwres yn y Neuadd, ydi perffeithio'r sustem Pwmp Gwres, lleihau'r nifer a maint y cerbydau a gwella effeithlonrwydd y boeler biomas yn stafell gyfarfod Canolfan Deilen Las a swyddfeydd.

Carpion papur o'r swyddfeydd yn cael ei ychwanegu at wellt o dan y gwartheg yn fferm Hafod y Llan. Mae sglodion pren sy'n cael ei greu o'r gwaith ystad yn cael ei ddefnyddio hefyd o dan y gwartheg.

Gwastraff

Rydym nawr yn ailgylchu 50% o'n gwastraff. Y brif ffordd yr ydym wedi cyflawni hyn ydi drwy ddefnyddio compostiwr 'Roced' sy'n troi ein gwastraff llysiau i mewn i gompost i'r garddwyr yn yr Ardd Fawr gymunedol. Rydym hefyd wedi dechrau ailgylchu plastig, yn defnyddio'r un cwmni sy'n casglu plastig sy'n gorchuddio byrnau mawr silwair yn fferm Hafod y Llan. Er bod hyn yn ddrud, mae wedi ein cynorthwyo i leihau'r maint sy'n mynd i dirlenwi. Mae cardfwrdd hefyd yn cael ei ailgylchu gan gwmni gwastraff lleol ond, rydym wedi dyfeisio ffordd ardderchog i ailgylchu gwastraff carpion papur - mae'n cael ei roi o dan y Gwartheg Duon Cymreig yn y sied yn Hafod y Llan.

Dŵr

Mae'n defnydd o ddŵr yn ystod 2007 wedi codi o 3% i 808.1m^3 er gwaethaf bod targed wedi ei osod i'w leihau o 5%. Er bod Craflwyn yng nghanol un o gymoedd gwlypaf DU mae'n defnydd o ddŵr yn gost i'r amgylchedd, gan bod ein dŵr yn cael ei dynnu o'r cwm nesaf.

Mae dyfais 'hippo' wedi cael ei roi yn y toiledau ac mae rhai o'r tapiau ar yr eiddo efo llif isel. Mae hyn yn golygu ein bod yn darllen y mesurydd dŵr ar ddiwedd un diwrnod a dechrau un arall, pan mae'r ganolfan yn wag.

Trafnidiaeth

Erbyn diwedd y flwyddyn, rydym wedi lleihau'r nifer o gerbydau wedi ei leoli yng Nghraflwyn i 5 a thractor, gan ddod a defnydd tanwydd i lawr i 6,901 litr, gostyngiad o 10% o'r flwyddyn ddiwethaf. Rydym wedi perswadio un o'r cwmnïau bws i adnabod Craflwyn fel man dal bws ac mae dau aelod o staff yn defnyddio'r bws yn achlysurol i gymudo yn ôl ac ymlaen i'r gwaith. Datblygiad cyffroes arall yn ystod 2007 oedd derbyn grant gan Gist Gymunedol Gwynedd i brynu 3 beic ar gyfer gwirfoddolwyr a staff wrth fynd o gwmpas eu gwaith yn yr ardal. Mae cwmni beiciau lleol, Beiciau Beddgelert yn cynnig 10% i ffwrdd ar logi beiciau, os gwneir o flaen llaw.

Staff yn mynd i nol hufen ia o'r pentref ar ddiwedd ein Diwrnod Gwyrdd. Mae gennym 3 beic yn y Ganolfan sy'n cael eu defnyddio gan staff a gwirfoddolwyr. Darperir helmed, siaced adlewyrchol a goleuadau

Prynu

Rydym wedi gweithio'n galed gyda'n cyflenwyr arlwyaeth yn ystod 2007 iddynt ddefnyddio cynnyrch lleol. Pan yn bosib mae hyn yn cynnwys cig eidion, cig oen neu gig llwdn wedi ei fagu ar ein fferm organig ein hunain Hafod y Llan. Dim ond te a choffi masnach deg sy'n cael ei ddefnyddio yng Nghraflwyn.

Ein Ecolegydd Maes a Swyddog Monitro, Sabine Nouvet sydd hefyd yn dal un o'r rhandiroedd yng Ngraflwyn.

Mae'r rhandiroedd yn galluogi 5 teulu lleol dyfu cynnyrch iachus ac organig wedi ennill gwobr y "Cyfarwyddwr Cyffredinol am ymrwymiad drwy cadwraeth" yn ystod 2008.

Ein targedau ac amcanion

Yn ystod 2008 byddwn yn ceisio:

- Lleihau allyriadau CO^2 o 10% i 75,135kg
- Lleihau defnydd trydan o 5% i 74,970kWh
- Lleihau defnydd o danwydd ffosil o 10%, hafal i 4950kg o leihad mewn allyriad CO_2
- Lleihau defnydd dŵr o 5% i 767m^3

Amcanion eraill wedi ei gynllunio:

- Gosod tyrbin pŵer hydro-electrig bychan i gynhyrchu trydan i'r gwersyllfa yurt
- Ymchwilio i mewn i bwyler biomas fel ffordd o leihau defnydd olew a thrydan

Richard Neale

Rheolwr Eiddo

Mawrth 2008